ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	20 Medi 2017
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706451
TESTUN:	Cais am Hysbysebu ar Gerbyd Hacni

1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Ystyried cais gan Mr. Gareth Jones, sy'n Berchennog Cerbyd Hacni sefydledig, am gymeradwyaeth i arddangos arwyddluniau ar ei gerbyd trwyddedig.

2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Yn unol ag awdurdod dirprwyedig, gall swyddogion trwyddedu gymeradwyo ceisiadau o'r fath yn unol â pholisi presennol.

2.2 Er bod gan swyddogion awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo ceisiadau fel a ddisgrifir yn 2.1 uchod, mae'r cais penodol hwn wedi codi pryderon gyda swyddogion ac felly nid yw wedi'i gymeradwyo ar lefel swyddog.

2.3 Ar ôl derbyn cais o'r fath, gofynnir i Aelodau ystyried y manylion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn i'w cynorthwyo wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo'r cais hwn.

3.0 PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847.

4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae Mr Jones wedi dod at y Cyngor gyda'r bwriad o wneud cais am ganiatâd i arddangos 2 arwyddlun ar ei gerbyd sydd newydd ei drwyddedu (Atodiad A).

4.2 Mae polisi presennol y Cyngor (5.6) a manyleb cerbyd (7.6) yn nodi'n glir y gofynion derbyniol sy'n ymwneud ag arwyddion, hysbysebu a chynllun lliwiau cerbydau trwyddedig. Mae manylion llawn i'w gweld yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

5.0 YSTYRIAETH

5.1 Wrth roi ystyriaeth i geisiadau o'r fath, dylai Aelodau fod yn fodlon na fydd natur yr arwyddluniau yn achosi tramgwydd neu ddenu sylw annerbyniol.

5.2 Bydd Aelodau am ystyried yw pob math o arwyddlun chwaraeon ac arwyddion gwladgarol yn dderbyniol i gael eu harddangos ar bob cerbyd trwyddedig yn gyffredinol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd cais yn dod i law i arddangos teyrngarwch i dîm chwaraeon neu wlad a allai ddenu sylw annifyr, neu gynyddu'r posibilrwydd am ymddygiad troseddol.

5.3 Er ei bod yn bosibl nad yw cais Mr Jones yn dod y tu allan i'r gofynion fel a nodir uchod yn awtomatig, mae gan swyddogion bryderon sy'n golygu y gall cymeradwyo'r cais gael goblygiadau ar y mathau o geisiadau a geir yn y dyfodol.

5.4 Os bydd Aelodau o blaid gwrthod ceisiadau o'r fath ar sail y pwyntiau a amlinellir yn 5.2, mae'n bosibl y byddant am ystyried diwygio'r polisi presennol i eithrio unrhyw arwyddluniau clybiau chwaraeon, arwyddion gwladgarol a phethau tebyg er diogelwch y gyrrwr trwyddedig, yn ogystal â diogelwch y cyhoedd yn gyffredinol.

6.0 ARGYMHELLIAD

6.1 Bod Aelodau yn ystyried y cais i arddangos yr arwyddluniau a chymryd un o'r opsiynau canlynol:

- cymeradwyo'r cais fel a ofynnir, neu
- wrthod rhoi cymeradwyaeth i'r cais

6.2 Os bydd Aelodau o blaid gwrthod rhoi cymeradwyaeth i'r cais, mae'n bosibl y byddant am ddiwygio'r polisi presennol yn 7.6.3 fel sy'n briodol.